Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Newyddion GB

21 Tachwedd 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

> *Dywedwyd bod y Senedd wedi dileu hawliau GB NEWS i ddarlledu o Gynulliad Cymru, GAN fy mod yn hoffi llawer yn talu amdanoch chi chi, rwyf am wybod y rhesymau pam y'm gorfodir i wylio'r BBC, ac NID darlledwr arall a cael barn a safbwyntiau gwahanol, ONI BAI fod Mr Drakeford ond eisiau i'w safbwyntiau EF a LLAFUR gael eu clywed drwy un darlledwr.*

Gellir gweld ein hymateb isod.

Nid yw Comisiwn y Senedd wedi gwahardd unrhyw sianeli teledu. Fodd bynnag, mae sianel GB News wedi ei hatal o system deledu fewnol y Senedd.

Isod mae cynnwys e-bost a anfonwyd at uwch staff Comisiwn y Senedd:

> *Rwyf wedi bod yn dilyn y newyddion am sylwadau ofnadwy Laurence Fox ar GB News. Hollol sarhaus, bwriadol ac amhriodol ar sianel newyddion, unrhyw sianel. Gwaethygwyd hyn hefyd gan sylwadau amhriodol gan gyflwynydd y rhaglen.*
>
> *Fel y gwyddoch, rwyf wedi cael fy herio o'r blaen yn y Senedd ynghylch priodoldeb GB News ar ein system deledu fewnol yn ystod Cwestiynau i'r Comisiwn. Ystyriaf yn awr na ddylid parhau i'w darlledu ar ein system. Ni allaf godi ar fy nhraed mwyach i amddiffyn hyn. Gofynnaf i'r sianel gael ei thynnu oddi ar y system ar unwaith a bydd yn parhau i gael ei hatal hyd nes y bydd y Comisiwn yn cytuno iddi gael dychwelyd i'r system. Byddaf yn hysbysu'r Comisiwn am fy mhenderfyniad yn ein cyfarfod nesaf.*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg | We welcome correspondence in both Welsh and English.**

*Gall yr Aelodau a staff barhau i wylio GB News drwy ffyrdd eraill, ond ni fydd system fewnol y Comisiwn yn hwyluso hyn.*

Yn gywir,

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF